


Cofion

- Parhawn i gofio yn ein gweddiâu am y rhai sydd mewn anhwylder ar hyn o bryd, gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Doreen Evans (Tanyfron) a Barbara Williams (Henllan), y ddwy wedi cael llawdriniaeth yn ystod yr wythnos, ac yno hefyd y mae Bob Williams (Tanyfron). Gweddiwn y bydd y tri ohonynt, yn ogystal â Henry Ames (Groes) ac Alaw Davies (Peniel) sydd hefyd wedi cael llawdriniaeth ond bellach wedi cael dod adre, yn cael adferiad iechyd buan iawn. Dwy oed yw Alaw ac rwy'n siŵr y byddwn yn cofio hefyd am ei theulu, ac am y teuluoedd eraill sydd yn gofalu ac yn gwarchod dros eu hanwyliaid. Hyderwn y byddant oll yn cael eu cynnal a'u nerthu dros y cyfnod hwn.
- Anfonwn ein llongyfarchiadau i Elwyn ac Eirwen Bailey (Llansannan) ar ddathlu eu Priodas Aur. Yr un yw'n llongyfarchion hefyd i Sioned Jones (Groes) a Daniel ar eu dyweddiad.

Detholiadau

Os oes aelodau sy'n awyddus i gael copi o Raglen Cymanfaeodd Canu 2011-2012, rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul **ERBYN DIWEDD MIS MEDI**, os gwelwch yn dda.

Y pris fydd £1.30.



I ddod

- **Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cynnal Encil yng Ngholeg y Bala, dydd Iau, Medi 29ain. Os oes rhywrai â diddordeb i fynychu, cysylltwch â Marian Davies (870619), os gwelwch yn dda.
- **Penwythnos Wigwam** yng Ngholeg y Bala yng nghwmni John Treharne o nos Wener, Medi 30ain tan nos Sadwrn, Hydref 1af. Croeso i bobl o bob oed. Mwy o wybodaeth gan Mair. Enwau i Angharad neu Delyth (01678 520565) erbyn Medi 22ain.
- ****CYFARFOD SEFYDLU ANEURIN YN WEINIDOG YM MRO ALED A CHYFARFOD COMISIYNU RHODRI GLYN YN GYNORTHWY-YDD GWEINIDOGAETHOL YM MRO ALED AR NOS SUL, HYDREF 2IL AM 6:00. MWY O FANYLION I DDILYN.**
- **Teulu Dedwydd?** - Diwrnod o gymdeithasu, hyfforddiant, ysbrydoli a chefnogaeth i rieni; arweinwyr eglwysig; a gweithwyr plant, ieuencid a theuluoedd yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Hydref 29ain o 10:30 – 3:00.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 18^{fed} Medi 2011

Cofiwch am yr oedfa arbennig heno pryd y bydd nifer o ieuencid y Fro yn cael eu derbyn yn aelodau.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da! Mae'n Sul pwysig i nifer o'n pobl ifanc heddiw ac i ni fel aelodau'r eglwys. Gobeithio y bydd Duw yn ein bendithio'n hael wrth i ni dderbyn pedwar ar ddeg yn aelodau newydd. Llawnwydd a diolchgarwch sydd ynom rwy'n siŵr wrth i ni edrych ymlaen at yr Oedfa ac wrth gofio hefyd am y gwaith mawr sydd wedi digwydd yn yr ofalaeth dros y blynyddoedd hefo'n plant a'n hieuenctid. Diolchwn am gyfraniad yr Ysgolion Sul a'r aelwydydd sydd wedi bod yn gymaint o gefn i'r rhai fydd yn cael eu derbyn heno.

Gobeithio y gwnawn oll wneud ymdrech arbennig i fod yn bresennol yn Llansannan am 6 yr hwyr. Mae Huw am arwain yr oedfa, yna fe fydd Rhodri yn agor y Gair cyn i minnau arwain yn y derbyn a'r cymun i ddilyn. Mae Duw yn ffyddlon ac edrychwn ymlaen at glywed ei Air a chael ei addoli hefo'n gilydd.

Yn ystod y cyfnod o baratoi tuag at gael eu derbyn buom fel dosbarth yn ystyried beth yw eglwys. Roeddem yn dychmygu pa elfennau a fyddai eu hangen arnom petaem yn sefydlu eglwys o'r newydd mewn lle dieithr lle nad oedd eglwys wedi bodoli o'r blaen. Beth fyddai ei angen mewn gwirionedd a beth fyddem yn ei wneud?

Diddorol iawn oedd yr ymateb gan y dosbarth – y peth cyntaf ar y rhestr oedd cael efenglydd i rannu'r newyddion da am Iesu ac i bregethu! Yna lle tawel i gyfarfod, a llun neu groes go iawn i ddangos ein bod yn credu yn y groes wag – fod Crist wedi marw ond ei fod hefyd wedi cyfodi ac nad yw ar y groes bellach. Byddai hefyd angen Beiblau a chyfle i ddysgu am yr hyn sydd yn y Beibl. Ysgol Sul neu grwpiau astudiaeth a fyddai'n rhoi cyfle i rannu gwybodaeth a phrofiad. Nid yn anhebyg i'r hyn sydd gennym yn wir! Ond yn y Gymru sydd ohoni efallai ei bod yn bryd i ni ystyried eto beth yw hanfodion go iawn Cristnogaeth a gwaith eglwys a meddwl sut fyddai hi arnom petaem yn gorfod cychwyn eto!

Mae ateb y cwestiwn yna yn siŵr o'n helpu i feddwl o ddfiri ac i flaenoriaethu'n gweithgarwch o'r newydd. Diolch i'r dosbarth am ein herio.

Ni chafodd bawb gyfle i ddod i bob sesiwn ond y newyddion da ydi fod Rhodri am drefnu sesiynau newydd i'r rhai sydd wedi eu derbyn a'r rhai sy'n aros am gael eu derbyn yn nes ymlaen. Gobeithio y byddwch fel teuluoedd yn cefnogi'r ymdrech yma hefyd i ddyfnhau ymroddiad ein hieuenctid.

Gweddiwn dros deuluoedd Nia ac Owain, Llanefydd hefyd wrth iddynt gyflwyno Anni Clwyd i'w bedyddio heddiw yng Nghefn Berain. Braf yw cael tystio i ddaioni Duw eto yn achos y teulu hwn a dymuno bendith yr Arglwydd ar y teulu oll.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00 pryd y bydd nifer o ieuenctid y Fro yn cael eu derbyn yn aelodau. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Rhodri yn pregethu a chawn gyfle i gymdeithasu dros baned ar ôl yr oedfa.
- Llun • **Christian Viewpoint** - cyfarfod i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel am 7:30. Mwy o fanylion gan Mair (870632).
- Mawrth
lau • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
• **Cyfarfod Plant** yn ail-gychwyn yn Llansannan am 3.15.
• **Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Henllan am 7.00 pryd y ceir cwmni Dr Owain Edwards, Coleg y Bala.
- Sadwrn • **Diwrnod o Ddiolchgarwch** – Diwrnod o ddathlu, rhoi diolch, gemau, addoliad, a chyflwyno rhodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'r Cartref Cariadus yng Ngholeg y Bala o 1:00 – 4:00 o'r gloch.
• Cyfarfod o'r **Weinidogaeth Iachau** yng Nghapel Bethania, Rhuthun o 10:30 – 3:00. Dewch â chinio hefo chi – cewch baned yno. Croeso i bawb!
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri Glyn yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd yng Nghefn Berain am 10.00 pryd y bydd Owain a Nia yn cyflwyno Anni Clwyd i'w bedyddio. Bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y bedydd yn oedfa'r bore. Yn Llanefydd, cynhelir Ysgol Sul am 10.00 a bydd Rhodri Glyn yn arwain oedfa am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Ioan Davies yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch Dafydd Job yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- lau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri Glyn yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch Dafydd Job yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Mr Tom I. Williams yn arwain oedfa yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul i'r plant heddiw.
- Sul nesaf Bydd Mr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau